WHAT IS GLOBAL CITIZENSHIP? / BETH YW DINASYDDIAETH FYD-EANG?

A **global citizen** recognises that they belong to a worldwide community as well as their local or national community. They are aware of the things that link them to other people and countries around the globe.

An **active global citizen** is concerned about inequality, injustice and human rights. Through making conscious choices in their lives, they try to make a difference, however small, to issues that affect people around the world.

Mae **dinasyddion byd-eang** yn sylweddoli eu bod yn perthyn i gymuned fyd-eang yn ogystal â'u cymuned leol neu genedlaethol. Maen nhw'n ymwybodol o bethau sy'n eu cysylltu â phobl a gwledydd eraill ar draws y byd.

Mae **dinasyddion byd-eang gweithredol** yn pryderu am anghydraddoldeb, anghyfiawnder a hawliau dynol. Drwy wneud dewisiadau ymwybodol yn eu bywydau, maen nhw'n ceisio gwneud gwahaniaeth, waeth pa mor fach, i faterion sy'n effeithio ar bobl o gwmpas y byd.

CLASSROOM ACTIVITY: AROUND THE WORLD

Objectives

Pupils will:
- understand that diversity exists within the class
- learn about the people, languages and culture of other countries

From the PSE Framework:
- know about aspects of their cultural heritage in Wales including the multi-cultural dimension
- value and celebrate cultural difference and diversity

Resources

- A large world map (we recommend the Peters projection, as it shows the continents in correct proportion to each other)
- Small stickers or drawing pins (lots of different shapes/colours)
- Pens, coloured paper etc.
- Books containing information about other countries
- *Optional:* Ribbon or marker pens matching the colour of the stickers
- *Optional:* Pupils' passport photos

Room layout

Pupils in a circle

Time

1 hour

Resources

- Put up the world map on a classroom wall or pin board
- Ask pupils to name countries to which they are linked, by using categories such as the following:
  - Countries in which family or friends live
  - Countries they have visited
  - Countries that produce the food they eat or the clothes they wear
  - Countries that speak a language of which the pupils know some words
  - Countries from which they have heard news on the TV or elsewhere
- Assign each category a different coloured pin/sticker, and stick one on each country named. (Particularly able pupils may be asked to place the pins/stickers themselves.)
  >> You may wish to join the pins/stickers together using matching ribbons or marker pens, in order to show the web that links the class to the rest of the world. <<
- Ask pupils to draw a small picture of themselves (or use passport photos), and to attach this to a place on the map which shows the most significant link they have to the rest of the world.

Class Discussion

- Were you surprised at how many different countries were covered?
- What effect do all these links have?
- Which countries do you think have the most links to others? Why do you think that is?

Where next?

- Pupils could do a project on a particular country of their choice to be linked to the map
- Pupils could bring in postcards from holiday destinations to display around the map
- Make the international links come alive by bringing Fairtrade products to your school
- Compare children's lives around the world with Oxfam's resources *Your World My World* and *Wake Up, World!*

This activity is a sample from *Citizenship Today*, CEWC-Cymru's online membership area. The full version will be available from September 2007 at www.cewc-cymru.org.uk/membership.

GWEITHGAREDD: LEDLED Y BYD

Amcanion

Bydd y disgyblion yn:
- deall bod amrywiaeth i'w chael o fewn y dosbarth
- dysgu am drigolion, ieithoedd a diwylliant gwledydd eraill

O Fframwaith ABCh:
- yn gwybod am agweddau ar eu treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru gan gynnwys y dimensiwn amlddiwylliannol
- yn gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaeth ac amrywiaeth diwylliannol

Adnoddau

- Map mawr o'r byd (rydym yn argymell tafluniad Peters, gan ei fod yn dangos y cyfandiroedd yn ôl eu maintioli cywir)
- Sticeri bychain neu binnau bawd (llawer o wahanol siapiau/lliwiau)
- Pinnau, papur lliw, ayb.
- Llyfrau sy'n cynnwys gwybodaeth am wledydd eraill
- *Dewisol:* rhubanau neu binnau marcio yr un lliw â'r sticeri
- *Dewisol:* Lluniau pasport y disgyblion

Trefn yr ystafell

Y disgyblion mewn cylch

Amser

1 awr

Gweithgaredd

- Gosodwch map y byd ar un o furiau'r ystafell ddosbarth, neu ar binfwrdd
- Gofynnwch i'r disgyblion i enwi gwledydd y mae ganddynt gysylltiad â nhw, trwy ddefnyddio categorïau fel y canlynol:
  - Gwledydd lle mae teulu neu ffrindiau yn byw
  - Gwledydd y maent wedi ymweld â nhw
  - Gwledydd sy'n cynhyrchu y bwyd maent yn ei fwyta neu'r dillad maent yn eu gwisgo
  - Gwledydd lle siaredir iaith y mae'r disgyblion yn gwybod ychydig eiriau ohoni
  - Gwledydd y maent wedi clywed sôn amdanynt yn y newyddion ar y teledu neu drwy rhyw gyfrwng arall
- Rhowch bin/sticeri o wahanol liw ar gyfer pob categori, a gwthiwch/glynwch un wrth bob gwlad a enwir. (Gallwch ofyn i ddisgyblion arbennig o alluog i osod y pinnau/sticeri eu hunain.)
  >> Mae'n bosibl y byddwch am ddefnyddio rhubanau neu binnau marcio o'r un lliw i gysylltu'r pinnau/sticeri, er mwyn dangos y we sy'n cysylltu y dosbarth â gweddill y byd. <<
- Gofynnwch i'r disgyblion i dynnu llun bychan ohonynt eu hunain (neu defnyddiwch luniau basport) a chysylltwch hwn ar ryw fan ar y map sy'n dangos y cysylltiad pwysicaf sydd ganddynt â gweddill y byd.

Trafodaeth yn y dosbarth

- A gawsoch chi eich synnu gan nifer y gwahanol wledydd yr oedd gan y dosbarth gysylltiad â nhw?
- Pa effaith sydd i'r holl gysylltiadau hyn?
- Pa wledydd sydd â'r nifer uchaf o gysylltiadau ag eraill? Pam felly, yn eich barn chi?

Ble nesaf?

- Gallai'r disgyblion wneud prosiect ar wlad arbennig o'u dewis i'w gysylltu â'r map
- Gallai'r disgyblion ddod â chardiau post o fannau gwyliau i'r dosbarth i'w harddangos o amgylch y map
- Dewch â'r cysylltiadau rhyngwladol yn fyw trwy ddod â Masnach Deg i'ch ysgol
- Cymharwch bywydau plant o amgylch y byd gydag adnoddau Oxfam *Eich Byd, Fy Myd* a *Wake Up, World!*

Sampl yw'r gweithgaredd hwn o *Ddinasyddiaeth Heddiw*, ardal aelodaeth arlein CEWC-Cymru. Bydd y fersiwn llawn ar gael o Medi 2007 ar www.cewc-cymru.org.uk/aelodaeth.

IRAQ / IRAC

International news is now available around the clock, and **conflicts** like the invasion and insurgency in Iraq dominate many of these broadcasts. Although war is more common in developing countries, richer nations are often involved, through sending troops or peacekeepers, or by providing weapons to different factions.

Active global citizens could: engage in debate about war, weapons and arms trading; or join the campaign against international arms trading.

Mae newyddion rhyngwladol ar gael bellach bob awr o'r dydd a'r nos, ac mae **gwrthdaro** fel goresgyniad a'r gwrthryfel yn Irac yn dominyddu llawer o'r darllediadau hyn. Er bod rhyfel yn fwy cyffredin mewn gwledydd sy'n datblygu, mae gwledydd cyfoethocach yn aml yn rhan ohonynt, drwy anfon milwyr neu luoedd cadw heddwch i mewn, neu drwy ddarparu arfau i wahanol carfanau.

Gallai dinasyddion byd-eang gweithredol: gymryd rhan mewn dadl am ryfel, arfau a'r farchnad arfau; neu ymuno â'r ymgyrch yn erbyn y farchnad arfau rhyngwladol.

More info / Rhagor o wybodaeth:
www.controlarms.org, www.caat.org.uk

RUSSIA / RWSIA

Since opening international trade relations after the end of the Cold War, Russia has become one of the biggest suppliers of **natural gas**, a major fuel for electricity production, heating and cooking purposes. Many European countries, including the UK, depend heavily on gas piped for thousands of miles from Russia. Such a readily available supply might make us neglect reducing our energy usage, and some people say that the gas pipelines are vulnerable to terrorist attacks or to Russian political power.

Active global citizens could: try to reduce their energy consumption, by using low-energy light bulbs or not leaving the TV on standby; or persuade their family to use an electricity supplier that promises to develop renewable energy sources.

Ers agor cysylltiadau masnach rhyngwladol ar ôl diwedd y Rhyfel Oer, mae Rwsia wedi dod yn un o gyflenwyr mwyaf **nwy naturiol**, ynni pwysig ar gyfer cynhyrchu trydan, gwresogi a chloginio. Mae llawer o wledydd Ewrop, yn cynnwys y DU, yn dibynnu'n helaeth ar nwy sy'n teithio drwy bibellau o Rwsia am filoedd o filltiroedd. Gallai cyflenwad sydd ar gael mor barod wneud i ni esgeuluso lleihau ein defnydd o ynni, a dywed rhai pobl fod y pibellau nwy yn agored i ymosodiadau gan derfysgwyr neu i rym gwleidyddol Rwsia.

Gallai dinasyddion byd-eang gweithredol: geisio lleihau eu defnydd o ynni, drwy ddefnyddio bylbiau golau ynni isel neu beidio â gadael y teledu yn y modd segur; neu berswadio eu teulu i ddefnyddio cyflenwr trydan sy'n addo datblygu ffynonellau ynni adnewyddol.

More info / Rhagor o wybodaeth:
www.energysavingtrust.org.uk, www.greenelectricity.org, www.fsc.org

CHINA / TSIEINA

We benefit from **Chinese products** every day, including many of our DVD and MP3 players, bags, books and cameras. Some councils in Britain even send their rubbish there for recycling! China will become the focus of even greater attention when it hosts the 2008 Olympics. It's not all good news, though: the economic revolution there is accompanied by reports of low wages, exploitative working conditions and irreversible environmental damage.

Active global citizens could: research the background of a product before making a purchase, and try to buy from companies with a good ethical reputation.

Rydym yn elwa yn sgil **cynnyrch o Tsieina** bob dydd, yn cynnwys llawer o'n chwaraewyr DVD ac MP3, bagiau, llyfrau a chamerâu. Mae rhai cynghorau ym Mhrydain hyd yn oed yn anfon eu sbwriel yno i'w ailgylchu! Daw Tsieina'n ganolbwynt sylw mwy fyth pan fydd yn croesawu Gemau Olympaidd 2008. Ond nid newyddion da yw'r cyfan, fodd bynnag: mae'r chwyldro economaidd yno'n dod law yn llaw ag adroddiadau am gyflogau isel, amodau gwaith sy'n ymelwa ar weithwyr a difrod amgylcheddol anwrthdroadwy.

Gallai dinasyddion byd-eang gweithredol: wneud ymchwil i gefndir nwyddau cyn eu prynu, a cheisio prynu gan gwmnïau sydd ag enw da yn foesegol.

More info / Rhagor o wybodaeth:
www.ethicalconsumer.org, en.beijing2008.com

BRAZIL / BRASIL

It is many years since the world was first alerted to the destruction of **rainforests** in places like Brazil and Indonesia. In many cases, ancient forests are cleared for agricultural purposes, and the wood is exported – often illegally – for use as furniture. Deforestation damages delicate ecosystems, reduces forests' capacity for absorbing carbon dioxide, and forces the movement of indigenous people.

Active global citizens could: insist on buying wood products that carry the Forest Stewardship Council logo, meaning that they come from sustainable sources.

Aeth sawl blwyddyn heibio ers i'r byd glywed gyntaf am ddinistrio'r **fforestydd glaw** mewn mannau fel Brasil ac Indonesia. Mewn sawl achos, caiff fforestydd hynafol eu clirio ar gyfer gwaith amaethyddol, a chaiff y coed eu hallforio – yn anghyfreithlon yn aml – i'w defnyddio ar gyfer gwneud dodrefn. Mae datgoedwigo'n niweidio ecosystemau cywrain, yn lleihau gallu'r fforestydd i amsugno carbon deuocsid, ac yn gorfodi pobl frodorol i symud.

Gallai dinasyddion byd-eang gweithredol: fynnu eu bod yn prynu nwyddau pren sy'n dangos logo'r Forest Stewardship Council, sy'n golygu eu bod yn dod o ffynonellau cynaliadwy.

More info / Rhagor o wybodaeth:
www.ran.org, www.fsc.org

ETHIOPIA

Some of the world's most popular **coffee** varieties come from Ethiopia. However, people there are among the poorest in the world, with the average income being around US$100 per person each year.

Active global citizens could: buy Fairtrade coffee; or take action through Oxfam to persuade Starbucks to give up its campaign to copyright Ethiopian coffee.

Daw rhai o'r mathau mwyaf poblogaidd o **goffi** yn y byd o Ethiopia. Ond mae'r bobl yn y fan honno ymhlith y tlotaf yn y byd, gyda'r cyfartaledd incwm o gwmpas $100 Americanaidd bob blwyddyn.

Gallai dinasyddion byd-eang gweithredol: brynu coffi Masnach Deg; neu weithredu drwy Oxfam i berswadio Starbucks i roi'r gorau i'w hymgyrch i gael hawlfraint ar goffi Ethiopia.

More info / Rhagor o wybodaeth:
www.oxfam.org.uk/what_you_can_do

LESOTHO

Lesotho is considered officially to be Wales's twin country, and there are many active **links** between schools, hospitals and other organisations in the two nations. International linking helps people from different backgrounds to understand each other, and enables developing countries to benefit from the resources of richer countries.

Active global citizens could: start a link between their school and one in another part of the world.

Caiff Lesotho ei hystyried yn swyddogol yn efaill wlad i Gymru, ac mae nifer o **gysylltiadau** gweithredol rhwng ysgolion, ysbytai a sefydliadau eraill yn y ddwy wlad. Mae cysylltu rhyngwladol yn helpu pobl o wahanol gefndiroedd i ddeall y naill a'r llall, ac mae'n galluogi gwledydd sy'n datblygu i elwa o adnoddau gwledydd mwy cyfoethog.

Gallai dinasyddion byd-eang gweithredol: gychwyn cyswllt rhwng eu hysgol eu hunain ac ysgol mewn rhan arall o'r byd.

More info / Rhagor o wybodaeth:
www.dolencymru.com, www.globalgateway.org.uk

BANGLADESH

Very few of the **clothes** that we buy these days are manufactured in the UK, or in any developed country. The charity War On Want has found evidence that workers in Bangladeshi clothes factories can earn as little as 5p an hour for making clothes that are then sold in Britain. Ultra-cheap clothes are more likely to be made in exploitative conditions, and encourage people to throw them away after using them only a few times.

Active global citizens could: write to shops from which they buy clothes, asking them to ensure acceptable conditions in their suppliers' factories; or not treat clothing as just another throwaway item, and buy clothes only when they really need them.

Ychydig iawn o'r **dillad** a brynwn heddiw sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU, neu mewn unrhyw wlad ddatblygedig. Mae'r elusen War on Want wedi dod o hyd i dystiolaeth fod gweithwyr mewn ffatrïoedd dillad yn Bangladesh yn gallu ennill cyn lleied â 5c yr awr am wneud dillad sydd wedyn yn cael eu gwerthu ym Mhrydain. Mae dillad rhad iawn yn fwy tebygol o gael eu gwneud dan amodau sy'n ymelwa ar weithwyr fel hyn, ac yn annog pobl i'w taflu ar ôl eu defnyddio dim ond ychydig o weithiau.

Gallai dinasyddion byd-eang gweithredol: ysgrifennu at y siopau lle maen nhw'n prynu dillad, gan ofyn iddynt sicrhau amodau derbyniol yn ffatrïoedd eu cyflenwyr; neu beidio â thrin dillad fel eitem ffwrdd â hi arall, a dim ond prynu dillad pan mae wirioneddol eu hangen arnynt.

More info / Rhagor o wybodaeth:
www.waronwant.org

FFÔN/TEL 029 2022 8549 FFACS/FAX 029 2064 0333 E-BOST/E-MAIL cewc@wcia.org.uk CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH/TEMPLE OF PEACE • PARC CATHAYS/CATHAYS PARK • CAERDYDD/CARDIFF • CF10 3AP